

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 (Senedd)	Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Llun, 25 Tachwedd	Clerc y Pwyllgor
2024	0300 200 6565
Amser: 11.00	SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod

(10.30–11.00)

Cyfarfod cyhoeddus

(11.00–14.40)

- 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(11.00)
- 2 Anabledd a Chyflogaeth: Sesiwn dystiolaeth ar waith Gweinidogion**
(11.00–12.30) (Tudalennau 1 – 63)
Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd
a'r Prif Chwip
Jack Sargeant, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Lorna Hall, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Llywodraeth
Cymru
Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Stephen Layne, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwaith Teg, Llywodraeth Cymru

Egwyl

(12.30–13.30)



3 Tlodi Tanwydd yng Nghymru: Cyflwyniad gydag academyddion o Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd

(13.30–14.40)

(Tudalennau 64 – 70)

Dr Simon Lannon, Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Phil Jones, Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd

4 Papurau i'w nodi

(14.40)

4.1 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

(Tudalennau 71 – 109)

4.2 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: "Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth"

(Tudalennau 110 – 116)

4.3 Gohebiaeth gan Gyrfa Cymru ynghylch nifer y bobl anabl a gyflogir gan Gyrfa Cymru

(Tudalennau 117 – 121)

4.4 Tystiolaeth ychwanegol i Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Anabledd a Chyflogaeth gan Ruth Nortey

(Tudalennau 122 – 128)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(iv) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

(14.40)

Cyfarfod preifat

(14.40–15.00)

6 Anabledd a Chyflogaeth: trafod y dystiolaeth

(14.40–15.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r Bwlch Cyflogaeth a Chyflogau i Bobl Anabl

25 Tachwedd 2024

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol. Mae strwythur y papur yn cyd-fynd â chylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad.

Mae Atodiad A yn rhoi trosolwg o grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyflogaeth pobl anabl

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Trosolwg o'r Bwlch Cyflogaeth a Chyflogau	4
3.	Cynnydd ers Adroddiad Drws ar Glo	5
4.	Ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd	6
5.	Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl, gwella cyfranogiad a chau'r bwlch cyflogaeth a thâl	7
	Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl.....	7
	Busnes Cymru	8
	Cyflogadwyedd a Sgiliau	8
6.	Mynediad at Brentisiaethau	10
7.	Cyfleoedd Gwirfoddol.....	11
	Atodiad A: Trosolwg o grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyflogaeth pobl anabl	12
	Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl.....	12
	Tasglu Hawliau Pobl Anabl.....	12
	Gweithgor Cyflogaeth Pobl Anabl	12

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol. Mae strwythur y papur yn cyd-fynd â chylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer ei ymchwiliad.
- 1.2 Mae Atodiad A yn rhoi trosolwg o grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyflogaeth pobl anabl.

2. Trosolwg o'r Bwlch Cyflogaeth a Chyflogau

2.1 Mae Adroddiad Llesiant Cymru 2024¹ yn dangos:

- Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, y gyfradd cyflogaeth ymysg pobl anabl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru oedd 51.0%, tra bo'r gyfradd ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl yn 81.9%. Mae'r bwlch yn y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl yn 2023-24, sef 30.9 pwynt canran, wedi gostwng o 35.4 pwynt canran yn 2015-16.
- Roedd y gwahaniaeth cyflog rhwng pobl anabl a phobl heb anabledd yng Nghymru yn £1.75 (12.2%) yn 2023. Mae hyn yn golygu bod pobl anabl yng Nghymru yn ennill £1.75 yn llai'r awr ar gyfartaledd na phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r gwahaniaeth cyflog wedi cynyddu £0.43 (2.5 pwynt canran) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ers 2019, mae gwerth y gwahaniaeth cyflog ar sail anabledd wedi gostwng fymryn bach (£0.01), ond oherwydd cyflogau uwch fesul awr ar gyfer gweithwyr anabl a gweithwyr nad ydynt yn anabl, fel canran, gostyngodd y gwahaniaeth cyflog 2.9 pwynt canran.

¹ Llesiant Cymru: 2024 | LLYW.CYMRU

3. Cynnydd ers Adroddiad Drws ar Glo

- 3.1 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn glir o ran ein hamcan i gau'r bwlch cyflogaeth rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio, ac mae ein Cerrig Milltir Cenedlaethol yn gosod targed hirdymor ar gyfer dileu'r bwlch cyflog ar sail rhyw, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050.
- 3.2 Yn 2021, sefydlodd y Prif Weinidog ar y pryd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Mae'r tasglu'n dod ag unigolion â phrofiadau bywyd, arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru, a sefydliadau cynrychioliadol ynghyd i fynd i'r afael â'r problemau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl, ac a nodwyd yn Adroddiad Drws ar Glo.
- 3.3 Mae'r Tasglu yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, a'r Athro Debbie Foster, awdur adroddiad Drws ar Glo.
- 3.4 Mae'r Tasglu wedi ymroi i egwyddorion cydlunio ac wedi ymgysylltu a gweithio gyda dros 350 o randdeiliaid allanol a 200 o arweinwyr polisi. Cafodd gefnogaeth gan Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd Llywodraeth Cymru a'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl hefyd.
- 3.5 Mae'r Tasglu wedi sefydlu cyfres o weithgorau sy'n canolbwyntio ar themâu penodol. Mae gwaith y gweithgor Cyflogaeth ac Incwm yn arbennig o berthnasol i ymchwiliad y Pwyllgor. Mae'r gweithgor hwn wedi archwilio materion amrywiol sy'n ymwneud â dileu rhwystrau sy'n llyffetheirio cyfranogiad, cadw swyddi a chynnydd yn eu gwaith ar ran unigolion anabl yn y gweithle.
- 3.6 Rydym yn disgwyl y bydd argymhellion y tasglu yn llywio cynllun gweithredu trawslywodraethol yr ydym yn rhagweld y byddwn yn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yng Ngwanwyn 2025.

4. Ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd

- 4.1 Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Mae hyn yn cael ei ddangos yn ein gweithredoedd fel cyflogwr, yn y ffordd yr ydym yn datblygu polisi, a'n dull gweithredu wrth gyflawni. Mae hyn yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud a'i gyflawni os caiff rhwystrau cymdeithasol eu dileu, yn hytrach nag ar yr hyn na allant ei wneud oherwydd eu hamhariadau.
- 4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cadw ei statws fel Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, ac fel cyflogwr rydym yn gwneud addasiadau rhesymol yn ein prosesau recriwtio a'n hamgylchedd gwaith. Mae ein dull o ymdrin ag addasiadau wedi cael ei gydnabod gyda gwobr gan Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu Cymru.
- 4.3 Ar hyn o bryd, mae 6.4% o weithlu Llywodraeth Cymru wedi datgan eu bod yn bobl anabl. Mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu'n raddol ers 2015, pan oedd pobl anabl yn 4.4% o'r gweithlu.
- 4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei nod o ddyrchafu staff anabl ar lefel sy'n uwch na'u cyfran o boblogaeth y sefydliad, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth ddigonol presennol ar bob lefel o'r sefydliad. Ers 2021, rydym wedi cyflawni'r nod hwn, gyda chyfradd gyfartalog o 5.9% dros y 3 blynedd diwethaf.
- 4.5 Yn ein hymdrechion recriwtio allanol, ein nod yw cael 20% o'r staff newydd a gyflogwn yn bobl anabl erbyn 2026. Erbyn 2030, rydym yn bwriadu cynyddu hyn i 30% i fynd i'r afael yn sylweddol â diffyg cynrychiolaeth ddigonol o ranpobl anabl yn Llywodraeth Cymru.
- 4.6 Er gwaethaf diffygion y model meddygol, yr her sy'n ein hwynebu yw ei fod yn dal i barhau mewn rhai rhannau eraill o'n cymdeithas, gan gynnwys ymhlith rhai cyflogwyr. Mae angen newid ehangach i'r model cymdeithasol o hyd a'r model cymdeithasol o anabledd yw'r sail i waith ein Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl hefyd, a'n hymgysylltiad â chyflogwyr.

5. Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl, gwella cyfranogiad a chau'r bwlch cyflogaeth a thâl

Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl

5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflogi pum Hyrwyddwr Cyflogaeth Pobl Anabl yn aelodau parhaol o'i staff. Mae pob un o'r hyrwyddwyr yn dod â phrofiadau bywyd a dealltwriaeth ddofn ac ymarferol o'r model cymdeithasol o anabledd yn eu sgil, ac mae eu gwaith yn ymwneud â'r sefyllfa o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru.

5.2 Yn fewnol, mae'r Hyrwyddwyr yn cyfrannu profiadau a gwybodaeth o'u bywydau i ddylanwadu ar ddatblygu polisi a dull gweithredu Llywodraeth Cymru fel cyflogwr. Yn allanol, mae'r Hyrwyddwyr yn ymgysylltu â chyflogwyr, sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr ac undebau llafur. Mae'r gwaith hwn yn cael ei adlewyrchu mewn pum amcan strategol:

- Amcan Strategol 1: Ymgysylltu â chyflogwyr, sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr ac undebau llafur, gyda'r nod o hyrwyddo recriwtio a chadw pobl anabl, cynyddu ymwybyddiaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd, a gwella profiadau pobl anabl yn eu gwaith a'u rhagolygon o ran eu gyrfaedd.
- Amcan Strategol 2: Creu perthynas â phartneriaid cyflawni yn y Llywodraeth a thu allan ac â gwasanaethau cymorth gyda'r nod o wella darpariaeth a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ar gyfer pobl anabl yng Nghymru.
- Amcan Strategol 3: Llywio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, gyda'r nod o sicrhau bod ein rhaglenni a'n gwasanaethau cyflogadwyedd a sgiliau yn cyflawni eu dibenion ar gyfer pobl anabl.
- Amcan Strategol 4: Gweithio gyda'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl a chydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru i gyfrannu profiadau a gwybodaeth o'u bywydau i ddylanwadu ar ddatblygu polisi ehangach Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar gyflogaeth pobl anabl.
- Amcan Strategol 5: Cyfrannu at waith corfforaethol perthnasol gyda'r nod o wella arferion Llywodraeth Cymru fel cyflogwr.

5.3 Mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith Cyngorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Busnes Cymru sy'n ymgymryd â rôl debyg sy'n canolbwyntio ar fusnesau newydd a mentrau bach i ganolog (BBaCh).

Busnes Cymru

- 5.4 Mae cymorth arbenigol i wella arferion ar gael gan Gynghorwyr Cyflogaeth Pobl Anabl sy'n gweithio ledled Cymru ac sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra yn ôl anghenion cleientiaid ar sail un i un neu mewn cyfarfodydd staff. Mae'r cyngor yn cynnwys recriwtio cynhwysol, cymorth ariannol, cadw staff ac achrediad. Mae'r cynghorwyr hefyd yn helpu unigolion i oresgyn rhwystrau i ddechrau busnes neu fynd yn hunangyflogedig.
- 5.5 Mae Busnes Cymru yn hyrwyddo hunangyflogaeth a chyfleoedd am waith i bobl anabl drwy ddigwyddiadau, cylchlythyrau a sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy gymorth cynghori Busnes Cymru. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth a chanllawiau ar wefan Busnes Cymru ynghylch cefnogi pobl anabl o fewn y gweithlu².
- 5.6 Mae Busnes Cymru wedi datblygu modiwl ar-lein a luniwyd i helpu cyflogwyr i gynyddu eu gwybodaeth am y model cymdeithasol o anabledd a'u dealltwriaeth ohono. Yn ogystal, i gefnogi entrepreneuriaid anabl, mae Busnes Cymru ac Anabledd Cymru wedi cynhyrchu Canllaw Arferion Da³ sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor ymarferol.

Cyflogadwyedd a Sgiliau

- 5.7 Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn rhan annatod o'n holl raglenni cyflogadwyedd, ac mae hyn yn golygu'r canlynol:
- Trefniadau gweithio hyblyg: mae darparwyr yn annog cyflogwyr i gynnig oriau gwaith hyblyg, opsiynau ar gyfer gweithio o bell, a chyfleoedd i rannu swyddi er mwyn darparu ar gyfer anableddau amrywiol.
 - Prosesau Recriwtio Hygyrch: Mae darparwyr yn gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio yn cael eu haddasu i sicrhau hygyrchedd.
 - Addasiadau yn y gweithle: Rhoddir addasiadau ar waith, fel gweithfannau ergonomig, technolegau cynorthwyol, a rhaglenni hyfforddi wedi'u teilwra'n bwrpasol, i gefnogi gweithwyr anabl.
- 5.8 Rydym wedi prif ffrydio'r model Hyfforddwr Swyddi Cyflogaeth â Chymorth i mewn i Dwf Swyddi Cymru+. Cyfran y dysgwyr a hunan-nododd eu bod yn anabl neu sydd ag anhawster dysgu, anabledd dysgu neu awtistiaeth o'r rhai'n cychwyn ar y rhaglen oedd 23.8% rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Er mwyn gwella mynediad, rydym wedi dileu'r gofyniad i bobl ifanc fod yn bresennol ar y rhaglen am isafswm o oriau.

² **Cyflogaeth Pobl Anabl | Porth Sgiliau Busnes Cymru**

³ https://businesswales.gov.wales/system/files/2023-06/Final_BW_Supporting%2520Disabled%2520Entrepreneurs%2520in%2520Wales_Welsh%5B1%5D.pdf

5.9 Mae holl Gynghorwyr Gyrfaoedd Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio wedi ymgymryd â hyfforddiant ar y model cymdeithasol o anabledd. Yn ogystal â'u gwasanaethau craidd, ar gyfer pobl ifanc anabl, mae Gyrfa Cymru yn gwneud y canlynol:

- Darparu cyngor ar fynediad i waith ac addasiadau rhesymol
- Atgyfeirio at sefydliadau sy'n cynnig cyflogaeth â chymorth os mai dyma'r opsiwn mwyaf priodol.
- Cefnogi'r broses Cynllun Datblygu Unigol, eirioli ar ran person ifanc a gwneud rhieni'n ymwybodol o gyfleoedd.
- Darparu adran wedi'i neilltuo i bobl ifanc anabl ar eu gwefan, 'Fy Nyfodol'.

6. Mynediad at Brentisiaethau

- 6.1 Nod ein Cynllun Gweithredu ar Anabledd o ran Prentisiaethau Cynhwysol yw cael gwared ar rwystrau a chreu amgylchedd cefnogol i bobl anabl gymryd rhan mewn prentisiaethau. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth ychwanegol yn ystod y brentisiaeth a sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud.
- 6.2 Mae'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr yn annog cyflogwyr i recriwtio pobl anabl trwy ddarparu cymhelliant ariannol a chymorth yn y gwaith ac mae Prentisiaethau â Chymorth a Rennir yn darparu cymorth ychwanegol i brentisiaid anabl.
- 6.3 Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos, erbyn ail chwarter blwyddyn academiaidd 2023/24, roedd dros 11% o'r 4,515 o brentisiaethau a gychwynnwyd gan ddysgwyr wedi'u cychwyn gan rai sy'n hunan-nodi eu bod yn anabl neu sydd ag anhawster dysgu, anabledd dysgu neu awtistiaeth. Mae hyn yn cymharu â 6% yn 2016/17 (pan welwyd y ffigyrau ar brentisiaethau pobl anabl am y tro cyntaf), 8% yn 2020/21, 10% yn 2021/22 a 12% yn 2022/23.

7. Cyfleoedd Gwirfoddol

7.1 Er ein bod yn cydnabod y gall gwirfoddoli ddarparu sgiliau a phrofiadau newydd, mae ein gwaith yn canolbwyntio ar wella cyfranogiad pobl anabl, eu cynnydd, a'u profiadau'n gyffredinol mewn swyddi â thâl, sy'n deg, yn saff ac yn ddiogel.

Atodiad A: Trosolwg o grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyflogaeth pobl anabl

Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Sefydlwyd y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn 2012 ac mae'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip. Mae'r aelodaeth yn cynnwys unigolion a sefydliadau sy'n prysur weithio tuag at sicrhau cydraddoldeb llwyr i bobl anabl. Mae'r Fforwm yn cwrdd o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

Ei brif bwrpas yw galluogi aelodau i roi adborth a chynghor i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl anabl yng Nghymru ac mae'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ymgynghori ag aelodau'r Fforwm ynghylch cynlluniau a chynigion polisi newydd a rhai sydd ar y gorwel. Mae'r Fforwm hefyd yn helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio o fewn egwyddorion ac arferion y Model Cymdeithasol o Anabledd ac yn gweithio i ddileu ableddiaeth.

Tasglu Hawliau Pobl Anabl

Sefydlwyd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl yn 2021 mewn ymateb i adroddiad '*Drws ar Glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl Covid-19*'. Cafodd ei gadeirio ar y cyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Athro Debbie Foster o Brifysgol Caerdydd. Cynhaliwyd cyfarfod olaf y Tasglu ym mis Mehefin 2024.

Roedd yr aelodaeth yn cynnwys unigolion â phrofiad bywyd o anabledd, mudiadau pobl anabl, sefydliadau cynrychioliadol ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru.

Ei bwrpas oedd dod ag aelodau ynghyd i fynd i'r afael â'r problemau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl, ac a nodwyd yn Adroddiad Drws ar Glo. Roedd yn darparu goruchwyliaeth strategol ar gyfer deng gweithgor, pob un dan arweiniad unigolion anabl, sef:

Ymgorffori a Deall y Model Cymdeithasol o
Anabledd (ledled Cymru)
Byw'n Annibynnol: Iechyd
Cyflogaeth ac Incwm
Plant a phobl ifanc
Mynediad at Gyfiawnder

Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys
Cyfathrebu a Thechnoleg)
Byw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol
Teithio
Tai Fforddiadwy a Hygyrch
Lles

Gweithgor Cyflogaeth Pobl Anabl

Sefydlwyd Gweithgor Cyflogaeth Pobl Anabl yn 2018 i feithrin ymgysylltiad a deialog rhwng Llywodraeth Cymru, mudiadau pobl anabl, a phartneriaid allweddol eraill, gan

gynnwys Adran Gwaith a Phensiynau'r DU a Gyrfa Cymru. Ei nod yw gwella mynediad at gyflogaeth a chanlyniadau cyflogaeth i bobl anabl.

Mae'n cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan yr Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ein cyf/Our ref: JH/PO/320/24

Jenny Rathbone MS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

8 Tachwedd 2024

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref ynghylch craffu'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru i weithredu nifer o argymhellion yn Adroddiad Ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru 2021 (SAEHR) fel y nodir yn ei hymateb ym mis Mai 2022. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi nifer o gynlluniau gweithredu cydraddoldeb unigol gan gynnwys y Cynllun Gweithredu LHDTTC+, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol, a ddatblygwyd i hyrwyddo cydraddoldeb i grwpiau difreintiedig yng Nghymru. Gan weithio gyda'r Tasglu Anabledd, mae strategaeth newydd ar gyfer pobl anabl yn cael ei datblygu a byddwn yn ymgynghori arni'r flwyddyn nesaf.

Mae'r ymatebion i'ch cwestiynau wedi'u nodi isod.

1. Cynnydd ar gyflawni pob cam gweithredu y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru yn yr ymateb i adroddiad SAEHR

Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull fesul cam o weithredu'r argymhellion sy'n canolbwyntio ar y canlynol: a) Gwaith Paratoi Deddfwriaethol; b) Canllawiau; c) Adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; ch) Ymgorffori Hawliau Dynol mewn Asesiad Effaith a d) Codi Ymwybyddiaeth. O ystyried cymhlethdod ac ehangder y gwaith dan sylw, nid oes terfyn amser ar gyfer y gwaith hwn.

a) Gwaith Paratoi Deddfwriaethol – argymhellion 1 a 25:
Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol (HRAG) ym mis Gorffennaf 2022 i oruchwyllo a llywio cynnydd camau gweithredu SAEHR. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter, ac maent wedi cyfarfod wyth gwaith hyd yma. Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ysgrifenyddol ar gyfer y cyfarfod ac yn adrodd iddynt ar gamau gweithredu.

Sefydlwyd y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol ym mis Medi 2022 i gynghori Llywodraeth Cymru ar y camau nesaf i fwrw ymlaen ag argymhellion 1 a 25, h.y. ymgorffori cytundebau hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith Cymru. Fel grŵp annibynnol, mae'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn pennu ei raglen waith a'i amllder ei hun. Mae'n cyfarfod bob yn ail fis ar hyn o bryd. Darperir dyletswyddau'r Ysgrifenyddiaeth gan swyddogion. Mae Cadeirydd y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol am y cynnydd. Cyflwynodd y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol adroddiad interim gweithredol i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2023.

Tan fis Mehefin 2023, roedd gan aelodau'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol a Gweinidogion Cymru bryderon sylweddol am nodau datganedig Llywodraeth y DU ar y pryd i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 a gafodd eu gwaethygu drwy gyflwyno'r Bil Hawliau yn y Senedd. Gan adlewyrchu'r pryderon hynny, roedd y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol wedi ystyried camau i wreiddio hawliau yng Nghymru mewn ffordd a fyddai'n eu diogelu rhag unrhyw atchweliad posibl, ochr yn ochr â'r ffactorau eraill a nodwyd yn Adroddiad SAEHR sy'n sail i'r angen i ymgorffori.

Fodd bynnag, mae'r pryderon hyn sy'n ymwneud â bygythiad amddiffyniadau hawliau dynol yn y DU o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 wedi lleihau wrth i'r Bil Hawliau gael ei dynnu'n ôl yn 2023.

Mae rhagor o eglurder wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â phwerau deddfwriaethol y llywodraethau datganoledig. Roedd llywodraeth y DU ar y pryd wedi llwyddo i herio Llywodraeth yr Alban dros eu cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno'r Bil Diwygio Cydnabod Rhywedd (Yr Alban) ym mis Rhagfyr 2023. Penderfynodd Llys y Sesiwn, oherwydd bod y Bil wedi addasu ystyr "tystysgrif cydnabod rhywedd lawn", bod y gyfraith wedi'i addasu'n anghyfreithlon fel y mae'n berthnasol i faterion a gedwir yn ôl, gan gynnwys cyfle cyfartal. Ar wahân, yn 2021, dyfarnodd y Goruchaf Lys nad oedd gan Weinidogion yr Alban y pwerau deddfwriaethol i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith yr Alban yn y ffordd roeddent wedi drafftio mewn dau Fil, wrth i'r darpariaethau addasu Deddf yr Alban 1998. Ceir cyfyngiadau tebyg yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn olaf, mae'r gwaith archwilio a wnaed hyd yma yn dangos yr angen i ganolbwyntio'n fwy eang ar argymhellion ymarferol i hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru. Charles Whitmore sy'n arwain y gwaith hwn ar hyn o bryd. Mae natur gymhleth a manwl y gwaith hwn yn golygu nad yw'n briodol cymhwyso terfyn amser iddo.

Ym mis Medi, cyhoeddodd Ysgrifennydd Cabinet yr Alban, Shirley-Ann Somerville, ASA, oedi o ran Bil Hawliau Dynol yr Alban tan ar ôl etholiadau'r Alban, gan nodi cyfyngiadau ar y setliad datganoli, a amlygwyd gan benderfyniad y Goruchaf Lys ym Mil Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2021. Mae hyn yn cyfyngu ar y cwmplas ar gyfer mesur newydd i hyrwyddo hawliau, cymhlethdodau rhyngweithio â dyletswyddau presennol ar gyfer deiliaid hawliau, a diffyg cynlluniau a disgwyliadau rhanddeiliaid. Rydym am ddysgu o brofiad yr Alban, felly rydw i wedi gofyn am gyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet, Shirley-Ann Somerville, ac rydw i hefyd wedi ysgrifennu'n ddiweddar at yr Arglwydd Ponsonby o Shulbrede, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd â phortffolio hawliau dynol ar gyfer Llywodraeth y DU.

b) Canllawiau – Argymhellion 2-4, 6-10, 12-13, 15-16

Mae datganiad o ymrwymiad i hawliau dynol wedi cael ei ddatblygu gan swyddogion, gan weithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y TUC, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol, y byd academiaidd; ac arbenigwr cyfreithiol annibynnol. Cymeradwyodd yr HRAG y datganiad yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. Dyma'r datganiad: "Mae hawliau dynol yn perthyn i bawb. Byddwn yn parchu, yn diogelu ac yn cyflawni'r hawliau hyn er mwyn i bawb yng Nghymru fod yn gallu byw gydag urddas, rhyddid, diogelwch a heb wahaniaethu. Rydym yn ymrwymo i ddull hawliau dynol sy'n blaenoriaethu llesiant pobl nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ymhellach sut gellir bwrw ymlaen â dull hawliau dynol, gan adeiladu ar y Dull Gweithredu ar Hawliau Plant a'r Dull Hawliau Dynol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn maes o law.

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn cyhoeddi ein Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol newydd sy'n cynnwys ffocws ar hawliau dynol. Mae Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol 2 yn nodi, "Byddwn yn creu Cymru lle gall pawb fod yn ymwybodol o'u hawliau dynol, lle cânt eu diogelu, eu hyrwyddo a lle maent yn sail i bob polisi cyhoeddus". Mae cynnwys hawliau dynol fel Amcan Cydraddoldeb Cenedlaethol yn enghraifft arall o'n hymrwymiad i hawliau dynol.

Mae argymhelliad 6 yn argymhell diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddiwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r canllawiau statudol presennol eisoes yn annog Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wahodd partneriaid sydd â diddordeb (sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus) i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel y gwelant yn briodol. Mae'r canllawiau hefyd yn annog ystyriaeth briodol a chymhwyso dyletswyddau mewn perthynas â chydaddoldeb, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, tlodi a bioamrywiaeth wrth ddatblygu cynlluniau llesiant lleol. Mae swyddogion yn ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cyfleoedd i wella'r canllawiau statudol. Fel rhan o'r ymarfer, bydd swyddogion yn ceisio barn ar y broses adrodd flynyddol.

c) Adolygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud; fodd bynnag, nid oes gennym y mandad i adolygu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n sail iddi. Er y gallai elfennau o Ddyletswyddau Cydraddoldeb presennol sy'n benodol i Gymru elwa o gael eu diweddarau, rydym wrthi'n blaenoriaethu'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb i bobl Cymru drwy gyflawni ein cynlluniau gweithredu.

ch) Ymgorffori Hawliau Dynol mewn Asesiad Effaith

Mae swyddogion yn edrych ar opsiynau i ymgorffori hawliau dynol mewn prosesau asesu effaith ehangach. Rydym yn gobeithio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn y maes hwn ddechrau 2025.

d) Codi Ymwybyddiaeth – Argymhellion 34 – 39

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar ei gwefan ar y camau y mae wedi'u cymryd i gryfhau hawliau dynol yn ystod y cyfnod rhwng 2018 a 2022.

Ym mis Rhagfyr 2023, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol drwy goffáu 75 mlynedd ers Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol i ddathlu Diwrnod Hawliau Dynol (10 Rhagfyr). Cynhaliwyd digwyddiad wyneb yn wyneb yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd, ac roedd 80 o bobl yn bresennol gan gynnwys amddiffynwyr hawliau dynol. Yn ystod yr un mis, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ar y cyd gen i a Mick Antoni AS, sef y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad ar y pryd, i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol.

Ym mis Rhagfyr 2023, rhoddais y ddarlith gyntaf yn yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe. Cafodd y ddarlith ei ffrydio'n fyw ar-lein, ac mae recordiad ar gael ar eu gwefan.

Rydym hefyd yn cynllunio i gynnal digwyddiad ar-lein i ddathlu pen-blwydd Diwrnod Hawliau Dynol 2024 yn 76 oed.

Tryloywder ac atebolrwydd

2. Mae holl gofnodion cytunedig y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol a'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Dynol bellach wedi cael eu llwytho i fyny ar wefan Llywodraeth Cymru. Cytunaf fod tryloywder ac atebolrwydd yn hanfodol, ac mae adnoddau ar gael erbyn hyn i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi'n fwy amserol yn y dyfodol.

3. Bydd copi o Gylch Gorchwyl y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn cael ei roi i chi, a bydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd.

Mae'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn grŵp annibynnol sy'n pennu ei raglen waith ei hun. Ar hyn o bryd mae'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn defnyddio'r fframwaith dadansoddol ar sail hawliau y mae wedi'i ddatblygu ar gyfer CEDAW a CRDP. Mae'r gwaith hwn yn newydd ac yn gymhleth – nid ydym yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o ddull gwyddonol systematig o ddatblygu modelau ymgorffori ar gyfer hawliau dynol rhyngwladol yng nghyd-destun trefniadau cyfansoddiadol tebyg.

Mae cadeirydd y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol wedi cyflogi aelod o staff yn ddiweddar i gefnogi'r gwaith hwn. Dim ond ar ôl i'r dadansoddiad hwn gael ei gwblhau y gellir datblygu amserlen gyflawni ar gyfer argymhellion sy'n dod i'r amlwg.

4. Bydd copi o adroddiad interim y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn cael ei roi i chi. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chyhoeddi'r adroddiad hwn oherwydd ei fod ar lefel uchel sy'n dal i fynd rhagddo. Trafodwyd yr adroddiad yng nghyfarfod y Grŵp Cyngori ar Adnoddau Dynol ym mis Medi 2023 lle cytunwyd bod y camau nesaf yn gam gweithredu mwy penodol.

Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

5. Bydd Cynllun Cyfathrebu Hawliau Dynol yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd cynnydd digonol wedi'i wneud ar y gwaith polisi sy'n angenrheidiol i ategu hyn. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth, ac rydym yn datblygu cynigion manylach y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf amdanynt maes o law.

6. Fel y nodwyd yn ein hymateb cyhoeddedig i'r adroddiad ym mis Mai 2022, mae Argymhelliad 39 yn argymhelliad i Gymdeithas y Gyfraith a Chyngor Cyfraith Cymru hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol ymhlith y proffesiynau cyfreithiol yng Nghymru, yn enwedig fframweithiau cyfreithiol sy'n unigryw i Gymru.

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd ymwybyddiaeth dda o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, nid yw Cymdeithas y Gyfraith na Chyngor y Gyfraith yn gyfrifol am addysg gyfreithiol a datblygiad proffesiynol parhaus. Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr sy'n gyfrifol am gyfreithwyr yng Nghymru, ac mae'r rheoleiddwyr cyfreithiol eraill yn gyfrifol am y proffesiynau cyfreithiol eraill y maent yn eu rheoleiddio, er enghraifft Bwrdd Safonau'r Bar mewn perthynas â bargyfreithwyr yng Nghymru. Byddem yn awgrymu mai mater i'r sector cyfreithiol yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y Bar, ysgolion y gyfraith a darparwyr addysg a hyfforddiant cyfreithiol eraill, yn ogystal â sefydliadau eraill sydd â rolau a chyfrifoldebau perthnasol fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chyfraith Gyhoeddus Cymru, yw ystyried sut y gellir hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ymysg y proffesiynau cyfreithiol a sefydliadau a rhwydweithiau eraill yng Nghymru.

Sefydlwyd Cyngor Cyfraith Cymru ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Mae gan y Cyngor grŵp addysg a hyfforddiant sydd wedi bod yn gweithio ar ddau brosiect blaenoriaeth cychwynnol ers 2022, un ar gwricwlwm cyfraith Cymru ar gyfer graddau israddedig yn y gyfraith ac un ar addysg gyfreithiol gyhoeddus yng Nghymru. Byddwn yn ysgrifennu at yr Arglwydd Lloyd-Jones, sef Llywydd Cyngor Cyfraith Cymru, a Dylan Rhys Jones a Huw Pritchard, sy'n arwain y grŵp addysg a hyfforddiant ar y cyd, i dynnu eu sylw at yr adroddiad *Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru*.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn aelod o'r Grŵp Cyngori ar Adnoddau Dynol a'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol. Roedd Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol yn aelod o'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol tan yn ddiweddar, ond nid yw'n bresennol mwyach oherwydd ei adnoddau o ran staff. Mae bellach yn derbyn y cofnodion. Roedd Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhan o'r gweithgor i ddatblygu datganiad o ymrwymiad i hawliau dynol.

Adnoddau

7 – 11 wedi'u cyfuno

O ystyried yr argymhellion ar draws y llywodraeth, nid yw'n bosibl darparu dadansoddiad llawn nac ystyrion o'r adnoddau dan sylw. Yn y tîm polisi hawliau dynol uniongyrchol, rwy'n dal yn sicr bod yr adnoddau'n adlewyrchu anghenion esblygol y gwaith wrth i'r uchelgeisiau gynyddu. Mater i'r Ysgrifennydd Parhaol yw dyrannu adnoddau. Roedd yr adnoddau a ddyrannwyd yn wreiddiol i'r tîm hwn yn seiliedig ar y ddealltwriaeth dros dro o natur y gwaith yr oedd ei angen ac wrth i'r gwaith esblygu. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cynnwys un Swyddog Gradd 7; un Uwch Swyddog Gweithredol; ac 1 Uwch Swyddog Gweithredol Cyfwerth ag Amser Llawn. Mae Swyddog Gweithredol wedi cael ei recriwtio'n ddiweddar, a bydd yn dechrau ym mis Tachwedd.

Mae'r tîm hwn yn ymdrin â'r gwaith i ymateb i argymhellion adroddiad SAEHR a chefnogaeth ar gyfer y Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol a'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol a drafodir uchod, ac mae'n ymdrin â gwaith ar asesiadau o'r effaith ar hawliau dynol, ymgysylltu â Llywodraethau eraill y DU a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas â hawliau dynol, ac adrodd ar gytundebau hawliau dynol rhyngwladol yn y DU. Mae gwaith y tîm wedi cynnwys cefnogi ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ar dair Deialog gyda Phwyllgorau'r Cenhedloedd Unedig yn ystod y 12 mis diwethaf – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl; y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (Mawrth 2023); a'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil. Mae'r tîm hefyd yn dechrau paratoi i fod yn bresennol yn Neialog y DU gyda Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ym mis Chwefror 2025.

Gweddill tymor y Senedd

12. Fel yr amlinellwyd, mae'r camau gweithredu ar ymgorffori yn amodol ar ganlyniadau gwaith y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol. Rydym yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar draws ein gwaith Hawliau Dynol ddechrau 2025.

13. Byddaf yn ystyried gwneud datganiad llafar ar ymgorffori ar yr adeg briodol pan fydd gwaith y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn ddigon datblygedig i er mwyn i ni fod yn gallu rhoi diweddariad ystyrlon i'r Senedd.

Argymhellion cyfiawnder

Mae sawl argymhelliad yn adroddiad SAEHR yn ymwneud â chamau gweithredu ar Gyfiawnder. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn ymateb mis Mai 2022 yn dal i sefyll. O ran Argymhelliad 26, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ym mis Chwefror eleni ar y cynnydd y mae wedi'i wneud o ran bwrw ymlaen ag argymhellion Comisiwn Thomas. Mae'r adroddiad ar gael [yma](#).

Gobeithio bod y diweddariad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen.

Yn gywir,



Jane Hutt AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip
Cc: Charles Whitmore, Professor Simon Hoffman and Dr Sarah Nason

Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y
Trefnydd a'r Prif Chwip

Annwyl Jane,

11 Hydref 2024

Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Ar 16 Medi clywsom gan yr Athro Simon Hoffman, Dr Sarah Nason a Charles Whitmore am gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae'r trawsgrifiad a recordiad o'r sesiwn ar gael [ar-lein](#). Rhoddodd yr Athro Hoffman a Dr Nason dystiolaeth yn flaenorol ym mis Tachwedd 2021 ar eu hadroddiad nodedig Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Dros dair blynedd ers ei gyhoeddi, roeddem o'r farn y byddai'n gyfle da i edrych ar y cynnydd o ran gweithredu.

Cynnydd cyffredinol a gweithredu

Ein hargraff gyffredinol o'r sesiwn oedd mai dim ond cynnydd cyfyngedig iawn sydd wedi'i wneud hyd yma. Ym mis Mai 2022, nododd Llywodraeth Cymru bum maes gweithredu a oedd yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion a dderbyniwyd yn adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru.¹ Rydym yn pryderu, ar sail yr hyn a glywsom, mai ychydig iawn o ddyheadau Llywodraeth Cymru sy'n debygol o gael eu cyflawni.

1. Byddem yn croesawu diweddariad cynhwysfawr ar y cynnydd o ran cyflawni pob maes gweithredu.

Tryloywder ac atebolrwydd

Roedd ein hymdrechion i ymchwilio i'r cynnydd wedi'u cyfyngu gan y diffyg gwybodaeth gyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd. Er enghraifft, ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, nid oedd [tudalen adroddiad](#)

¹ Llywodraeth Cymru, [Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru: Ymateb Llywodraeth Cymru](#), 23 Mai 2022

Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru wedi'i ei diweddarau o gwbl ers ei gyhoeddi ym mis Awst 2021.

Ym mis Mehefin 2022, gwnaethoch sefydlu Grŵp Cyngori ar Hawliau Dynol a Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol i fonitro a chynghori ar y prif ffrydiau gwaith a nodwyd gennych mewn ymateb i adroddiad Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Canfuwyd mai dim ond ar 4 Medi 2024 y cyhoeddwyd tudalen Llywodraeth Cymru ar Hawliau Dynol, ac y cafodd tudalennau ar y Grŵp Cyngori a'r Gweithgor a oedd yn cynnwys set anghyflawn o gofnodion eu cyhoeddi am y tro cyntaf ar 11 Medi 2024. Rydym yn synnu y byddai'n cymryd cymaint o amser i gyhoeddi'r wybodaeth hon ac yn methu â deall pam mai dim ond tair set o gofnodion ar gyfer y Grŵp Cyngori (ar gyfer Gorffennaf 2022, Rhagfyr 2023 a Chwefror 2024) ac un set ar gyfer y Gweithgor (Medi 2022) sydd wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn. Byddem yn croesawu dull gweithredu mwy rhagweithiol ac amserol yn y dyfodol. Er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd a fydddech cystal â darparu'r canlynol:

2. esboniad o'r rhesymau dros yr oedi o ran cyhoeddi tudalennau a chofnodion swydddogol y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol a'r Grŵp Cyngori ar Hawliau Dynol a'r rhesymau pam mai dim ond tri yn y gyfres sydd wedi'u cyhoeddi;
3. copi o gylch gorchwyl y Gweithgor, ei flaenraglen waith, a'r amserlenni cysylltiedig;
4. copi o adroddiad canfyddiadau cychwynnol y Gweithgor ar ymgorffori hawliau dynol yng nghyfraith Cymru.²

Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor, ac yn eu hadroddiad, pwysleisiodd yr Athro Hoffman a Dr Nason fod ymwybyddiaeth o hawliau dynol yn elfen sylfaenol o lywodraethu da a democratiaeth. Mewn ymateb i argymhellion adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi "Cynllun Cyfathrebu Hawliau Dynol sylweddol [...] fel rhan o'r camau cyntaf a gaiff eu rhoi ar waith."³ Galwodd yr adroddiad hefyd am well cydweithio rhwng y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas y Gyfraith i hyrwyddo'r agenda hawliau dynol.

Yn wyneb yr uchod, byddem yn croesawu:

5. Diweddariad ar y Cynllun Cyfathrebu Hawliau Dynol: sut y cafodd ei ddatblygu, ei statws presennol a'r copi diweddaraf i ni ei ystyried;

² European Human Rights Law Review, Evolved and Devolved, yr Athro Simon Hoffman,

³ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru: Ymateb Llywodraeth Cymru, 23 Mai 2022



6. Diweddariad ar y cynnydd o ran yr argymhellion sy'n ymwneud â chydweithio rhwng y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas y Gyfraith gan gynnwys manylion am gyfraniad Llywodraeth Cymru (gweinidogion a swyddogion) at y gwaith o hwyluso'r rhain.

Adnoddau

Gan nodi ein siom ynghylch y diffyg cynnydd, yn enwedig o ran ymgorffori deddfwriaethol, awgrymodd Cadeirydd y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol, Charles Whitmore, mai diffyg adnoddau pwrpasol oedd yn rhannol gyfrifol am hyn.⁴ Cawsom ein synnu gan yr honiad hwn yn enwedig o ystyried y pwysigrwydd a roddir i ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu, ac felly byddem yn croesawu dadansoddiad o'r adnoddau a ddyrannwyd i'r ffrwd waith hon dros y tair blynedd diwethaf. Yn benodol:

7. faint o weision sifil sydd wedi'u dyrannu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymïadau a wnaed mewn ymateb i adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru hyd yma;
8. amlinelliad o adnoddau a fydd yn cael eu dyrannu yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymïadau a wnaed mewn ymateb i'r adroddiad;
9. crynodeb o'r holl adnoddau a ddyrannwyd ym mhob Blwyddyn Ariannol (adnoddau dynol ac adnoddau ariannol), a chrynodeb o rolau a chylchoedd gwaith;
10. crynodeb o'u gweithgarwch a'u cyflawniadau yn ôl Blwyddyn Ariannol; ac
11. a oes gan yr Ysgrifennydd Cabinet sicrwydd bod y fframwaith perfformiad cywir ar waith i fesur cynnydd a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni?

Gweddill tymor y Senedd

Dyddiad diddymu'r Bumed Senedd yw mis Ebrill 2026, prin 18 mis i ffwrdd. Un o ymrwymïadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu yw ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, a'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod yn y gyfraith. O ystyried yr amser y mae'n ei gymryd fel arfer i'r Senedd basio Bil, byddai'n ddefnyddiol deall sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflawni'r nodau hyn yn yr amser sy'n weddill.

Byddem felly yn croesawu:

12. Dadansoddiad manwl o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd rhwng nawr a diwedd y Bumed Senedd;

⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [paragraffau 28, 46, 52](#), 16 Medi 2024



13. Datganiad Llafar i'r Senedd ar ymgorffori hawliau dynol mewn deddfwriaeth yn gyffredinol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod, yn benodol.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei rannu â thystion o sesiwn 16 Medi a byddaf yn ysgrifennu mewn termau tebyg at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ofyn am ddiweddariad.

Byddwn yn croesawu ymateb erbyn 8 Tachwedd 2024.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

URL: <https://www.llyw.cymru/cryfhau-hyrwyddo-cydraddoldeb-hawliau-dynol-yng-nghymru>

RESEARCH

Strengthening and advancing equality and human rights in Wales



This research examines legislation and guidance in Wales to explore and recommend options to strengthen and advance equality and human rights.

 This is the latest release

Released: 26 August 2021 | Last updated: 26 August 2021

The report details research that was commissioned as part of the Welsh Government's commitment to developing a clear approach in Wales to ensuring equality and human rights are fully considered and protected.

The research findings outline mechanisms to strengthen and advance equality and human rights in Wales, with the report including 40 recommendations for legislative, policy, guidance, or other reforms to meet this objective. Each recommendation, most of which are for the Welsh Government but with some applicable to public authorities, the EHRC, Welsh Commissioners, regulators and inspectorates, the Law Society, and any future Law Council for Wales, includes detailed steps to progress toward the main recommendation.

RELATED
[Statistics and research](#)

URL: <https://www.llyw.cymru/hawliau-dynol-yng-nghymru>

 Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg



[Home](#) > [Equality and human rights](#) > [Human rights](#) > Human rights in Wales

POLICY AND STRATEGY

Human rights in Wales

What we are doing to strengthen and improve human rights in Wales.

Part of: [Human rights](#)

First published: 4 September 2024

Last updated: 4 September 2024

Contents

- [Introduction](#)
- [Why are we strengthening human rights](#)
- [How are we strengthening human rights](#)
- [Human Rights Advisory Group](#)
- [Human Rights Legislative Options Working Group](#)
- [Our international obligations](#)

Introduction

The Welsh Government has a legal obligation to respect, protect and fulfil human rights.

URL: <https://www.llyw.cymru/hawliau-dynol-yng-nghymru#153341>

[Home](#) > [All organisations](#) > Human Rights Advisory Group

Human Rights Advisory Group

What we do

The Human Rights Advisory Group advises and monitors progress on the actions we are taking. The quarterly meetings are chaired by Cabinet Secretaries.

CATEGORY

Publications

LATEST

Human Rights Advisory Group meeting: 8 February 2024

8 February 2024 Meeting

Human Rights Advisory Group meeting: 6 December 2023

6 December 2023 Meeting

Human Rights Advisory Group meeting: 26 July 2022

26 July 2022 Meeting

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB-PO-0316-24

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

11 Tachwedd 2024

Annwyl Jenny,

Diolch yn fawr am eich llythyr yn ymwneud ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth?

Rwy'n croesawu'r cyfle i drafod yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn maes o law, ond yn y cyfamser, gweler isod yr eglurhad pellach y gofynnwyd amdano mewn perthynas ag Argymhellion 1, 3, 5, 8 a 9.

Argymhelliad 1:

Pan lansiwyd Teulu Cymru chwe mis yn ôl, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Hyd yma, mae'r cynnwys ar bynciau amserol wedi'i groesawu, yn enwedig y cynnwys yn ymwneud â gofal plant, awgrymiadau ymarferol, llesiant rhieni a phryderon am ddiogelwch ar-lein. Caiff perfformiad Teulu Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol ei fonitro'n agos, ac rydym yn parhau i weld cynnydd cyson yn nifer y dilynwyr bob mis, o ychydig yn llai na 15,000 pan lansiwyd y ddarpariaeth, i fwy na 18,000 ar hyn o bryd. Caiff perfformiad y negeseuon a'r cynnwys hefyd ei ddadansoddi ochr yn ochr â gwybodaeth a gesglir o sgysiau ar-lein, a chaiff y gwersi a ddysgir o werthusiadau eu cymhwyso at waith cynllunio cynnwys. Er enghraifft, rydym yn gweld awydd am gynnwys mewn fformatau gwahanol ar Instagram a Facebook, ac rydym yn dechrau dylunio cynnwys yn unol â hynny. Rydym hefyd yn gweithio ar welliannau i'r ffordd rydym yn cyflwyno ein postiadau yn ddwyieithog a gwelliannau i ymgorffori dwyieithrwydd yn ein cynnwys yn lle llunio cynnwys Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac yn profi'r gwelliannau hynny.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector gofal plant ac wedi trafod cymhlethdodau'r systemau a'r ffrydiau cyllido gwahanol ar gyfer gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn datblygu un system ar gyfer gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae angen rhaglen newid sylweddol, a gaiff ei chyflawni mewn cydweithrediad agos â'r sector ac awdurdodau lleol ac wrth ymgysylltu â rhieni. Mae addasrwydd a chymhlethdod y systemau presennol yn faterion sy'n cael eu hystyried mewn sawl darn o ymchwil yn ymwneud â rhaglenni presennol a gwaith datblygu polisi sydd eisoes yn mynd rhagddo neu yn yr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 110
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

